

**PWYLLGOR CYNLLUNIO**  
**DYDD MERCHER, 24 TACHWEDD 2021**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NA Dydd Mercher, 24 Tachwedd 2021

**PRESENNOL: Cynghorydd David Wisinger (Cadeirydd)**

Cynghorwyr: Mike Allport, Chris Bithell, Derek Butler, Chris Dolphin, Ian Dunbar, Veronica Gay, Gladys Healey, Patrick Heesom, Christine Jones, Richard Jones, Ted Palmer, Mike Peers, a Neville Phillips

**YMDDIHEURIADAU:** Cynghorwyr Bernie Attridge, Richard Lloyd ac Owen Thomas

**HEFYD YN BRESENNOL:** Cynghorydd Ian Roberts (fel arsylwr)

**YN MYNYCHU:**

Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Rheolwr Datblygu, Rheolwr Gwasanaeth – Strategaeth, Arweinydd Tîm – Cynllunio, Swyddogion Cynllunio, Uwch Beiriannydd – Rheoli Datblygiad Priffyrdd, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd

**32. DATGAN CYSYLLTIAD**

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

**33. SYLWADAU HWYR**

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau i ddarllen y sylwadau hwyr a oedd wedi eu dosbarthu cyn y cyfarfod ac wedi eu hatodi i'r rhaglen ar wefan y Cyngor:

<https://cyfarfodyddpwyllgor.sirymfflint.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=490&MId=4992&Ver=4&LLL=1>

Planning 24.11.21 - late observations

**34. COFNODION**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Hydref 2021 yn gywir, ar ôl i'r Cynghorwyr Ian Dunbar a Chris Bithell eu cynnig a'u heilio.

**PENDERFYNWYD:**

Derbyn y cofnodion fel cofnod cywir a phriodol.

**35. EITEMAU I'W GOHIRIO**

Ni argymhellwyd gohirio dim un o'r eitemau.

**36. ADRODDIADAU'R PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO A'R AMGYLCHEDD)**

**PENDERFYNWYD:**

Cofnodi'r penderfyniadau fel y dangosir ar amserlen y Ceisiadau Cynllunio sydd wedi ei gynnwys fel atodiad.

**37. MEMBERS OF THE PUBLIC AND PRESS IN ATTENDANCE**

On commencement of the meeting, there were no members of the press in attendance.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1.00pm, a gorffennodd am 2.25pm)

.....  
**Cadeirydd**

Mae cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio yn cael eu gweddarlledu a gellir eu gweld drwy ymweld â llyfrgell gweddarlledu yn: <http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home>

**PWYLLGOR CYNLLUNIO AR 24 TACHWEDD 2021**

EITEM RHIF	CYNGOR TREF/ CYMUNED	SAFLE/CAIS	ARSYLWADAU TRYDYDD PARTI / AELOD LLEOL	PENDERFYNIAD
062344	Cyngor Cymuned yr Hôb	Cais Amlinellol - datblygiad preswyl arfaethedig yn Wrexham Signs Ltd, Pughs Yard, Ffordd Penarlâg, Caergwrle	Cafodd datganiad yn cefnogi'r cais ei ddarllen yn ystod y cyfarfod ar ran Mr P Edwards, yr Asiant.	Rhoi'r caniatâd cynllunio amlinellol yn ddibynnol ar yr amodau sydd wedi eu gosod yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog.
060824	Cyngor Tref Treffynnon	Cais llawn - newid defnydd tir o dir amaethyddol i dir marchogaeth, gan gynnwys arena marchogaeth awyr agored, ardal rhagwthio, stablau, ystafell harneisiau a cherddwr ceffylau yn ôl-weithredol a'r ychwanegiad bwriedig o do dros yr arena awyr agored presennol a sefydlu canolfan therapi a marchogaeth yn Fferm Greenhill, Bryn Celyn, Treffynnon.		Rhoi'r caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau sydd wedi eu gosod yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog.

EITEM RHIF	CYNGOR TREF/ CYMUNED	SAFLE/CAIS	ARSYLWADAU TRYDYDD PARTI / AELOD LLEOL	PENDERFYNIAD
062921	Cyngor Tref y Fflint	Cais Llawn - bwriad i adeiladu 2 annedd 3 ystafell wely gyda lle parcio cysylltiedig ac amwynder	Cynghorydd Michelle Perfect fel Aelod Ward lleol, yn siarad yn erbyn y cais.	Rhoi caniatâd cynllunio ar yr amod fod yr ymgeisydd yn derbyn Rhwymedigaeth Adran 106 ac yn ddibynnol ar yr amodau a amlinellwyd yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog.
		Materion Cyffredinol - Gorchymyn Diogelu Coed rhif 337 yn 36 Parc Gwepra, Cei Connah	Roedd y Cynghorydd Martin White, fel Aelod Ward lleol, yn siarad o blaid y cais.	Bod Gorchymyn Diogelu Coed Rhif 337 (2021) yn 36 Parc Gwepra, Cei Connah yn cael ei gadarnhau heb addasiad.